# Gwybodaeth i gleifion sydd angen gwaed wedi'i arbelydru

**Mae eich tîm meddygol wedi dweud y dylech gael gwaed wedi'i arbelydru. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei hychwanegu at eich cofnod meddygol.**

**Dylech ofyn bob amser os yw'r gwaed rydych yn ei dderbyn wedi'i arbelydru cyn iddo gael ei drallwyso.**

## Beth yw gwaed wedi'i arbelydru a pham bod ei angen?

Gwaed wedi'i arbelydru yw gwaed sydd wedi cael ei drin gydag ymbelydredd (gyda phelydrau-x neu fathau eraill o ymbelydredd), i atal TA-GvHD (Transfusion-Associated Graft-versus Host Disease).

## Beth yw TA-GvHD?

Mae TA-GvHD yn gymhlethdod prin ond difrifol o ganlyniad i drallwysiad gwaed, sydd yn cael ei achosi gan gelloedd gwyn (lymffosytau) yn y gwaed wedi'i drallwyso. Mae hyd yn oed nifer fach iawn o'r celloedd hyn yn gallu gweld bod y claf sy'n derbyn y gwaed yn 'wahanol', ac achosi salwch difrifol neu farwolaeth hyd yn oed.

## Pa gleifion sydd mewn mwy o berygl o gael TA-GvHD?

Mae rhai cleifion mewn mwy o berygl o gael TA-GvHD, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- cleifion sy'n derbyn trallwysiadau gan aelodau o'r teulu, rhoddwyr sydd â'r un teipfeinwe, neu roddwyr gronyngelloedd (math o gell gwyn y gwaed)
- cleifion sydd wedi etifeddu anhwylder ar y system imiwnedd
- cleifion sydd wedi datblygu anhwylder ar y system imiwnedd, fel clefyd Hodgkin; neu o ganlyniad i driniaeth gyda rhai cyffuriau; neu oherwydd trawsblaniad mêr esgyrn / bôn-gelloedd
- babanod yn y groth a babanod sydd angen trallwysiadau cyfnewidiol

I rai cleifion, mae'r risg o ddal y clefyd TA-GvHD ond yn para am gyfnod byr. I eraill, mae'r peryglon yn para ar hyd eu hoes, e.e. cleifion sydd ag anhwylder ar y system imiwnedd, a chleifion sydd â chlefyd Hodgkin. Mewn rhai sefyllfaoedd, nid oes neb yn gwybod am ba mor hir fydd y risg yn para, a gall ysbytai wneud gwahanol argymhellion ar gyfer grwpiau penodol o gleifion.

Bydd eich tîm meddygol yn eich cynghori p'un a ydych chi, eich plentyn neu eich perthynas angen gwaed wedi'i arbelydru, ac am ba mor hir y byddwch ei angen.

## Sut mae arbelydru gwaed yn gweithio?

Mae arbelydru gwaed yn atal lymffosytau (math o gell gwyn yn y gwaed) rhag rhannu ac achosi niwed.

## Ydy'r holl waed yn cael eu harbelydru fel mater o drefn?

Nac ydynt. Nid yw trallwysiadau celloedd coch yn cael eu harbelydru fel mater o drefn - maen nhw angen cael eu harbelydru 'ar alw', ar gyfer cleifion sydd mewn perygl o gael TA-GvHD.

**Mae'n bwysig eich bod chi'n atgoffa eich tîm meddygol eich bod chi angen gwaed wedi'i arbelydru, gan fod rhaid iddynt ei archebu yn arbennig.**

Mae'r holl drallwysiadau gronyngelloedd (celloedd gwyn), platennau a'r rhai gan roddwyr sydd â'r un teipfeinwe, yn cael eu harbelydru fel mater o drefn. Nid yw plasma ffres wedi'i rewi a chynhyrchion plasma, e.e. gwrth-D, albwmin ac imiwnoglobwlin yn cynnwys lymffosytau neu'n achosi TA-GvHD, ac felly, does dim rhaid iddynt gael eu harbelydru.


## Ydy arbelydru yn niweidio'r gwaed?

Nid yw arbelydru yn achosi unrhyw ddifrod arwyddocaol. Nid yw'r gwaed yn cael ei 'ymbelydru' ac ni fydd yn achosi niwed i chi nac i unrhyw un arall o'ch cwmpas.

## Beth os oes angen gwaed mewn argyfwng?

Er bod gwaed wedi'i arbelydru yn cael ei argymell ar eich cyfer chi, os ydych yn derbyn gwaed sydd heb gael ei arbelydru, mae'r risg o ddal TA-GvHD yn fach iawn.

Mewn argyfyngau, efallai na fydd digon o amser i drefnu i waed wedi'i arbelydru gael ei ddarparu,  gan y gallai fod yn fwy pwysig darparu gwaed yn gyflym. Bydd y tîm meddygol sydd yn eich trin chi yn pwyso a mesur y risgiau hyn.



Please attach these stickers to the patients notes.

Bend sheet back across here to peel off card

I am at risk of transfusion-associated graft-versus-host disease

If I need to have a blood transfusion, cellular blood components (Red Cells and Platelets) **MUST BE IRRADIATED**

Please inform your blood transfusion laboratory

Welsh Blood Service


Please detach the above card, complete the details on the reverse and hand to the patient. This card must be shown to the patient's medical team before each transfusion.

This patient is at risk of transfusion-associated graft-versus-host disease

If this patient needs to have a blood transfusion, cellular blood components (Red Cells and Platelets) **MUST BE IRRADIATED**

Please inform your blood transfusion laboratory

Welsh Blood Service



Name ______

DoB __/__/__ Consultant ______

Hospital/NHS Number ______

Hospital for enquries ______

Reason for irradiated blood ______

Irradiated blood needed indefinitely

or until __/__/__

Date of issue of card __/__/__



## Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau, gofynnwch i'r tîm meddygol sy'n eich trin chi. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drallwysiadau gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngrwyd, efallai y bydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.welshblood.org.uk

NHS Choices
www.nhs.uk/Conditions/Blood-transfusion/Pages/Introduction.aspx

Gwasanaethau Trallwyso'r DU
www.transfusionguidelines.org.uk/index.aspx

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
www.blood.co.uk

Fel mesur rhagofalus, er mwyn ceisio lleihau'r risg o drosglwyddo vCJD, nid yw pobl sydd wedi derbyn trallwysiad gwaed ers 1980 yn gallu rhoi gwaed ar hyn o bryd.

Er mwyn cynllunio ar gyfer y galw am waed yn y dyfodol, mae angen caslu gwybodaeth am ba gleifon sy'n derbyn gwaed. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ysbyty neu feddyg teulu i roi gwybodaeth feddygol gyfyngedig am sampl o gleifion sydd wedi cael trallwysiadau gwaed. Mae unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei hanfon ymlaen i GGC yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mae hawliau'r cleifion hyn yn cael eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Wasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

Hoffem ddiolch i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.

**Gwasanaeth Gwaed Cymru**
**0800 252266**
**gwaed-cymru.org.uk**

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust